

Cynllun Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Canllaw Hawlio Costau Milltired Busnes a Theithio a Chynhaliaeth

Hydref 2014

Darllenwch y canllaw hwn yn ofalus cyn cyflwyno hawliadau

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r modd y mae swyddfa Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol (NWSSP-PCS) yn ad-dalu treuliau teithio Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol mewn ffordd mor syml a theg ag y bo modd o dan gyfarwyddiadau'r Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, a gyflwynwyd yng Nghymru ar 19/2/08 ac a ddiwygiwyd ar 21/8/08 a 29/4/09, yn unol ag egwyddorion ac arweiniad cyffredinol ar gyflogaeth yn y GIG gan Lywodraeth Cymru (LIC).

Mae cyfarwyddiadau'r Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol wedi'u bwriadu i adlewyrchu cyflogau ac amodau mewn ysbytai, i sicrhau nad yw Cofrestryddion ar fwy o golled yn ariannol yn ystod eu lleoliad mewn practis meddygon teulu na'u lleoliad ysbyty GIG – ac nad ydynt ar eu hennill yn ariannol chwaith.

Lwfans Teithio Dyddiol Ychwanegol

Gall Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol, sy'n sefydlu cartref parhaol er mwyn ymgymryd â'u hyfforddiant galwedigaethol ac yn dewis teithio o gartref i'r swyddi amrywiol a ddelir yn hytrach na symud cartref, hawlio am dreuliau teithio dyddiol ychwanegol yn lle treuliau symud. Er enghraifft, os bydd meddyg yn byw 3 milltir o'i swydd mewn ysbyty, ac wedyn yn dewis teithio 46 milltir o gartref i'r gwaith ac yn ôl pan fydd ar ei (l)leoliad ymarfer, bydd yn gallu hawlio costau am deithio mwy na 40 milltir bob dydd y mae'n gyrru i'r practis. Rhaid cyflwyno'r hawliadau hyn ar ffurflen hawlio costau teithio dyddiol ychwanegol NWSSP-PCS ac maent yn daladwy ar gyfradd o 24 ceiniog y filltir (cyfradd cludiant cyhoeddus). Cysylltwch â'r swyddfa hon i gael ffurflen hawlio briodol.

Lwfans Milltired Busnes

Mae'r lwfans milltired busnes wedi'i fwriadu i ad-dalu Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol am deithiau swyddogol sy'n angenrheidiol at ddibenion eu gwaith, e.e. ymweliadau cartref neu deithio rhwng prif feddygfa a meddygfa gangen. Gall cofrestryddion hawlio **uchafswm o 10 milltir** bob ffordd am deithio rhwng y cartref a'r practis hefyd, **ond dim ond os ydynt yn gyrru eu car ar daith swyddogol ar yr un diwrnod AC NID ydynt yn hawlio costau teithio dyddiol ychwanegol.**

Rhaid cyflwyno'r hawliadau hyn ar ffurflen hawlio milltired busnes NWSSP-PCS.

Tudalen 1 o 12

(Page 2)

Bydd yr arweiniad a restrir isod yn eich cynorthwyo i lenwi'r ffurflen yn gywir, gan gynorthwyo NWSSP-PCS i brosesu'ch hawliad yn ddi-oed:

- Mae pob un o'r adrannau canlynol yn orfodol, a rhaid eu llenwi. Sylwer y bydd ffurflenni anghyflawn yn cael eu dychwelyd:
 - Enw'r Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol
 - Rhif y Cyngor Meddygol Cyffredinol
 - Cyfeiriad Cartref y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol
 - Enw'r Hyfforddwr
 - Cyfeiriad y Practis Hyfforddi
 - Cyfnod yr hawliad
 - Gwneuthuriad/model y car
 - Capasiti injan y car
 - Rhif cofrestru'r car
 - Milltired o'r cartref i'r practis hyfforddi (un ffordd). Sylwer y bydd NWSSP yn defnyddio AA Route Planner i ddilysu neu ddiwygio'r milltired ar sail codau post o ddechrau'r daith i'r gyrchfan, yn seiliedig ar y llwybr byrraf. Felly, gellir addasu'r milltired sy'n cael ei hawlio o ganlyniad i'r gwriad hwn
- Rhaid i bob ffurflen gael ei llofnodi gan y sawl sy'n hawlio, a'i hawdurdodi gan yr Hyfforddwr Meddygon Teulu neu Gynrychiolydd y Practis. Bydd ffurflenni anghyflawn yn cael eu dychwelyd.
- Llenwch y manylion am y daith ar yr ail dudalen. Rhoddir enghraifft isod o sut i restru'r manylion am eich taith:

Dyddiad	Diben y Daith (os ydych yn hawlio ar gyfer teithwyr, nodwch nifer y teithwyr a'u henwau) MS – Prif Feddygfa BS – Meddygfa Gangen HV – Ymweliad Cartref VTS (Lleoliad) – Diwrnodau Astudio H – Cartref SIN – Singleton WWG – Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru PCH – Tywysog Siarl NHH – Nevill Hall	Milltired o'r Cartref i'r Feddygfa (uchafswm o 10 milltir bob ffordd)	Milltired Ymweliad Cartref/ Ymweliad Swyddogol Arall	Milltired Teithwyr (os yw'n berthnasol)
---------	---	---	--	---

	RGH1 – Ysbyty Brenhinol Gwent RGH2 – Ysbyty Brenhinol Morgannwg GCH – Glan Clwyd MOR – Treforys PoW – Tywysoges Cymru Defnyddiwrch fyrfoddau ychwanegol yn ôl yr angen (nodwch y cyfeiriad llawn yn y gofod NWSSP isod)			
Enghraifft 1	H-MS-HV-MS-H	20	2.5	Dd/b
Enghraifft 2	H-MS-VTS (nodwch y lleoliad) –MS-H	20	23	Dd/b
Enghraifft 3	H-MS-VTS (nodwch y lleoliad)-H	10	23 – 13	Dd/b
Enghraifft 4	H-MS-HV-VTS (nodwch y lleoliad)-H	10	2.5 – 25 – 13	Dd/b
Enghraifft 5	H-VTS (nodwch y lleoliad)-H	0	23	Dd/b

- Rhewch groes trwy unrhyw linellau heb eu defnyddio ar eich ffurflen hawlio.
- Peidiwch â rhestru codau post na manylion am gleifion nac ymweliadau cartref.

O dan y rheoliadau lwfans milltired busnes, gall Cofrestryddion hawlio hefyd am deithiau i'w canolfan addysg leol ar gyfer diwrnodau astudio VTS (gweler nodyn * dros y dudalen) ac ar gyfer teithiau i'w lleoliadau y tu allan i oriau.

Tudalen 2 o 12

(Page 3)

Sylwer * Teithiau i'ch canolfan addysg leol ar gyfer diwrnodau astudio VTS:

Peidiwch â chynnwys digwyddiadau neu gyrsiau diwrnod wedi'u trefnu gan eich Canolfan leol ar gyfer Ôl-raddedigion. Gellir hawlio'r rhain fel cyrsiau Adran 2/63 (gweler isod).

Bydd hawliadau milltired busnes yn cael eu had-dalu ar y gyfradd safonol, fel y dangosir yn Atodiad 1.

Fel arall, gall unrhyw Gofrestryddion sy'n credu y byddai ganddynt hawl i gael ad-daliad o dan y darpariaethau Defnyddwyr Rheolaidd wneud cais yn ysgrifenedig i NWSSP-PCS i gael eu had-dalu o dan y Lwfans Defnyddwyr Rheolaidd a ddangosir

yn Atodiad 1 hefyd. Er mwyn hawlio fel Defnyddiwr Rheolaidd, rhaid i Gofrestryddion Ymarfer Cyffredinol naill ai:

1. deithio mwy na 3,500 o filltiroedd y flwyddyn, ar gyfartaledd, neu
2. deithio o leiaf 1,250 o filltiroedd y flwyddyn, ar gyfartaledd, a
 - i. rhaid iddynt ddefnyddio eu cerbyd am o leiaf dridiau'r wythnos, neu
 - ii. dreulio o leiaf 50 y cant o'u hamser, ar gyfartaledd, ar deithio o'r fath, gan gynnwys y dyletswyddau a gyflawnir yn ystod yr ymweliadau, neu
3. deithio o leiaf 1000 o filltiroedd y flwyddyn, ar gyfartaledd, a threulio pedwar diwrnod yr wythnos, ar gyfartaledd, yn teithio, gan gynnwys y dyletswyddau a gyflawnir yn ystod yr ymweliad.

Gweithdrefn Hawlio

Er mwyn i chi hawlio milltired busnes am eich teithiau swyddogol, bydd angen i chi lenwi ffurflen hawlio milltired busnes **bob mis**, a chyflwyno'r hawliad hwn i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru erbyn y **5ed o bob mis**. Bydd yr holl hawliadau Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol yn cael eu talu i'ch practis lleoli presennol ar ddiwrnod gweithio olaf y mis. **Sicrhewch fod eich hawliad terfynol yn cael ei gyflwyno cyn i chi adael eich lleoliad.**

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o'r ffurflen hawlio. Mae enghraifft ynghlwm yn Atodiad 2. Bydd fersiynau hŷn o'r ffurflen yn cael eu dychwelyd i'r sawl sy'n hawlio.

Mae'n bwysig fod y Cofrestrydd a/neu'r practis yn cadw cofnodion cywir o'u milltired at ddibenion treth ac yn gwirio gyda'i gyfrifydd ynglŷn â'i atebolrwydd o ran treth ac Yswiriant Gwladol. Mae gwefan Cyllid y Wlad yn nodi na ellir hawlio gostyngiad yn y dreth ar deithiau o'r cartref i'r gwaith.

Rhaid i Gofrestryddion sicrhau eu bod yn hawlio unwaith yn unig am bob taith gymwys, ac NAD ydynt yn hawlio ar gyfer unrhyw daith y maent yn derbyn addaliad amdani yn rhywle arall, naill ai drwy NWSSP-PCS neu unrhyw sefydliad arall. Bydd unrhyw hawliadau a gwblhawyd yn anghywir yn cael eu dychwelyd at y practis.

Treuliau Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer Cyrsiau Adran 2 / 63

Gall cofrestryddion sy'n mynychu cyrsiau cymeradwy'r Adran Ôl-raddedigion (heblaw Diwrnodau Astudio VTS) hawlio am gostau teithio a/neu gynhaliaeth ar ffurflen hawlio Adran 2/63 hyd at uchafswm o £300 fesul blwyddyn ariannol. Mae rhestr o'r cyfraddau presennol y gellir eu hawlio ynghlwm yn Atodiad 3.

Gweithdrefn Hawlio

Dylai ffurflenni hawlio Adran 2/63 gael eu darparu gan eich darlithydd/tiwtor pan fyddwch yn mynychu'ch cwrs a dylid llenwi ffurflenni cyflawn i NWSSP-PCS i gael ad-daliad. Fel arall, gellir cyflenwi ffurflenni hawlio gan NWSSP-PCS. **Rhaid styffylu** derbynebaw gwreiddiol i'r hawliad.

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn defnyddio fersiwn ddiweddaraf y ffurflen hawlio. Mae enghraifft ynghlwm yn Atodiad 4. Bydd fersiynau hŷn o'r ffurflen yn cael eu dychwelyd at y sawl sy'n hawlio.

Sicrhewch fod yr adrannau canlynol wedi'u llenwi pan fyddwch yn cyflwyno ffurflen hawlio Adran 2/63:

- Enw llawn
- Rhif y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Cyfeiriad a chod post y practis
- Nodwch pa statws sy'n berthnasol i chi
- Dyddiadau a lleoliadau'r cwrs
- Rhaid i bob ffurflen gael ei llofnodi a'i stampio gan y tiwtor clinigol, trefnydd y cwrs neu unigolyn awdurdodedig arall
- Amseroedd ymadael a chyrraedd ar gyfer pob taith
- Os ydych yn hawlio ar gyfer teithiwr/teithwyr a fynychodd yr un cwrs, nodwch ei enw/eu henwau

Pwyntiau Cyffredinol i'w Nodi

- Os nad ydych yn hawlio costau teithio, rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi deithio. Os teithioch chi fel teithiwr, rhowch enw/enwau'r gyrrwr/gyrwyr
- Os ydych yn hawlio ar gyfer lwfans dros nos anfasnachol, rhowch fanylion am ble arhosoch chi
- Rhaid i chi sicrhau eich bod yn hawlio unwaith yn unig ar gyfer pob taith gymwys, ac **NAD** ydych yn hawlio am unrhyw daith yr ydych yn cael ad-daliad ar ei chyfer yn rhywle arall, naill ai drwy NWSSP-PCS neu unrhyw sefydliad arall
- Bydd pob hawliad a lenwyd yn anghywir neu'n rhannol yn cael ei ddychwelyd at yr hawlydd
- Dylid styffylu pob derbynneb ar gyfer gwesteiau, tocynnau parcio, trenau/tacsis i'r ffurflen hawlio
- Amgaewch gopi o'r llythyr sy'n dangos eich bod wedi mynychu'r cwrs
- Sicrhewch fod pob blwch wedi'i lenwi'n llawn. Os nad yw blwch yn berthnasol, llenwch y blwch trwy gofnodi Dd/b. Rhoddir enghraifft o sut i restru manylion eich taith ar dudalen 5.

- Ni chaiff Diwrnodau Astudio VTS eu dosbarthu fel cyrsiau Adran 2/63 a rhaid hawlio ar eu cyfer ar wahân ar ffurflen hawlio Milltired Busnes.

Tudalen 4 o 12

(Page 5)

ENGHRAIFFT O SUT I LENWI'R FFURFLEN HAWLIO ADRAN 2/63

Manylion am Dreuliau

Dyddiad	Manylion llawn am y daith gyda chodau post (rhaid defnyddio'r union godau post dechrau a dychwelyd).	Os oedd gwyrriad ar y daith, nodwch y rheswm	Amser gadael	Amser dychwelyd	Costau cynhaliaeth dydd/nos	Taith yn ôl a blaen (ar gyfer teithiau car)	Cost milltiroedd (23c y filltir a 2g fesul teithiwr)	Prisiau/ffioedd parcio
1/1/13	O gartref (NP58 3RZ) i RCGP, Llundain EC4M 9DQ ac yn ôl Arholiad CSA	Dd/b	08.15	22.40	£15	305	£70.15	Dd/b
4/3/13	O gartref (NP58 3RZ) i Westy'r Thistle, Birmingham B28 0YH Cwrs paratoi CSA	Dd/b	07.40	Dd/b		Dd/b	Dd/b	
5/3/13	O Westy'r Thistle, Birmingham B28 0YH gartref (NP58 3RZ) Cwrs paratoi CSA		Dd/b	17.30	£55 £20 £5			£65 trên £5 tacsi
25/6/13	O'r feddygfa (NP52 5LB) i Westy'r Angel, Y Fenni NP57 5EN	Dd/b	08.05			56	£12.88 (teithiwr Dr JB – gweler isod)	£7 ffi parcio car
25/6/13	Dychwelyd adref (NP58 3RZ) Cwrs dermatoleg			18.15	£15			

14/7/13	O gartref (NP58 3RZ) i Ysbyty Nevill Hall (NP7 7EG)	Dd/b	08.50			Dd/b	Dd/b Teithiwr gyda Dr Who, (Hyfforddwr)	Dd/b
14/7/13	Dychwelyd adref (NP58 3RZ) Cwrs arolygu iechyd plant			13.55	£5			

At ddefnydd NWSSP yn unig (symiau wedi'u cadarnhau neu'u haddasu)				

Manylion am Deithwyr:

Enw	Cyfeiriad	Statws
Dr Joseph Bloggs	Meddygfa ABC, W99999	Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol

Dylid postio pob ffurflen gyflawn i'r:

Adran Rheoli Contractau
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Llawr 1af Tŷ Cwmbrân
Ystâd Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 0XS

Atodiad 1**Cyfraddau Presennol ar gyfer Milltiroedd Busnes/Defnyddwyr Rheolaidd**

Ceir Defnyddiwr Safonol	Capasiti Injan Hyd at 1000cc	Capasiti Injan 1001 i 1500cc	Capasiti Injan 1501 i 2000cc	Capasiti Injan Dros 2000cc
Hyd at 3,500 o filltiroedd	37.4 ceiniog y filltir	47.3 ceiniog y filltir	58.3 ceiniog y filltir	58.3 ceiniog y filltir
3501 – 9000 o filltiroedd	23.0 ceiniog y filltir	28.2 ceiniog y filltir	33.5 ceiniog y filltir	41.0 ceiniog y filltir
9001 – 15,000 o filltiroedd	17.8 ceiniog y filltir	20.1 ceiniog y filltir	22.7 ceiniog y filltir	25.5 ceiniog y filltir
Ar ôl hynny	17.8 ceiniog y filltir	20.1 ceiniog y filltir	22.6 ceiniog y filltir	22.6 ceiniog y filltir

Beiciau Modur Defnyddiwr Safonol	Capasiti Injan 125cc neu lai	Capasiti Injan Dros 125cc
Hyd at 5,000 o filltiroedd	17.8 ceiniog y filltir	27.8 ceiniog y filltir
Dros 5,000 o filltiroedd	6.7 ceiniog y filltir	9.9 ceiniog y filltir
Lwfans Teithiwr	5 ceiniog y filltir ar gyfer pob teithiwr	
Cyfradd Cludiant Cyhoeddus	24 ceiniog y filltir	
Beiciau Pedal	I'w gytuno yn lleol, yn amodol ar isafswm o 10c y filltir	

Ceir Defnyddiwr Rheolaidd	Capasiti Injan Hyd at 1000cc	Capasiti Injan 1001 i 1500cc	Capasiti Injan Dros 1500cc
Cyfandaliad Blynnyddol (telir mewn rhandaliadau misol)	£508	£626	£760
Hyd at 9000 o filltiroedd	29.7 ceiniog y filltir	36.9 ceiniog y filltir	44.0 ceiniog y filltir
Ar ôl hynny	17.8 ceiniog y filltir	20.1 ceiniog y filltir	22.6 ceiniog y filltir

ATODIAD 2

NWSSP-PCS Cymru Gyfan

Ffurflen Hawlio Milltired Busnes Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol

Enw'r Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol

Rhif y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Enw'r Hyfforddwr

Cyfeiriad y Practis Hyfforddi: Prif Feddygfa:

Meddygfa Gangen
(os yw'n berthnasol)

Cyfeiriad Cartref y Meddyg Teulu
.....

Cyfnod y ffurflen hawlio, rhwng a

Manylion am y Car

Gwneuthuriad / Model Capasiti Injan (cc) Rhif Cofrestru'r Car

Milltired o'r Cartref i'r Practis Hyfforddi

Prif Feddygfa (UN FFORDD)

Meddygfa Gangen (UN FFORDD) (os yw'n berthnasol)

RYDW I'N GADAEL Y SWYDD HYFFORDDI UCHOD AR
(nodwch y dyddiad, os yw'n berthnasol)

RYDW I'N DATGAN:

- (a) Bod y treuliau a'r lwfansau teithio a hawliwyd yn cyd-fynd â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Chyfarwyddiadau Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol (Diwygio) 2008 a 2009, a'u bod mewn cysylltiad ag ymweliadau swyddogol â'r lleoedd a nodir ar y dyddiad(au) a ddangosir dros y dudalen.
- (b) Nad wyf wedi gwneud unrhyw hawliad arall ar unrhyw gorff cyhoeddus am dreuliau neu lwfansau mewn cysylltiad â'r busnes a nodwyd.
- (c) Nad oes unrhyw newid wedi bod yn fy nhrefniadau/fy nyletswyddau teithio, neu newidiodd fy nyletswyddau teithio ar
(dyddiad).

- (ch) Pan gaiff hawliad am filltiredde ei wneud, roedd fy ngherbydd wedi'i drethu a'i yswirio'n briodol ac roedd tystysgrif MOT ddilys ar ei gyfer (os yw'n briodol) trwy gydol cyfnod yr hawliad.
- (d) Rydw i'n datgan bod y wybodaeth a roddir yn wir a chyflawn, hyd y gwn i.
- (dd) Rydw i'n cydsynio i ddatgelu'r wybodaeth ar y ffurflen hon i'r Gwasanaeth Atal Twyll at ddibenion atal twyll, darganfod twyll ac ymchwilio i dwyll.

Sylwer y bydd NWSSP yn defnyddio AA Route Planner i ddilysu neu ddiwygio'r milltiredde ar sail codau post o ddechrau'r daith i'r gyrchfan, yn seiliedig ar y llwybr byrraf. Felly, gellir addasu'r milltiredde sy'n cael ei hawlio, o ganlyniad i'r gwiriad hwn.

Llofnod yr Hawlydd Dyddiad

Rydw i'n ardystio, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr hawlydd wedi ymgymryd â'r gwasanaeth busnes a nodir ar y dyddiad(au) a ddangosir dros y dudalen a bod y symiau a hawliwyd yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006 a Chyfarwyddiadau Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol (Diwygiad) 2008 a 2009. Rydw i hefyd yn cadarnhau bod yr hawliad wedi cael ei wirio a'm bod yn fodlon â'r cyfansymiau sy'n cael eu hawlio

Sicrhewch fod yr hawliad hwn yn cael ei lofnodi gan yr hawlydd a'i awdurdodi gan yr Hyfforddwr Meddygon Teulu neu Gynrychiolydd y Practis. Bydd ffurflenni anghyflawn yn cael eu dychwelyd, ac felly bydd oedi wrth roi ad-daliad.

Llofnod y Swyddog Ardystio: Swydd

Enw'r Swyddog Ardystio mewn Priflythrennau Dyddiad

Tudalen 7 o 12

(Page 8)

Atodiad 2, parhad...

Er mwyn cael ad-daliad amserol, dylid dychwelyd y ffurflen gyflawn erbyn y **5ed** o bob mis i'r Adran Rheoli Contractau, NWSSP-PCS De Ddwyrain Cymru, Tŷ Cwmbrân, Ystâd Parc Mamhilad, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 0XS. Gellir gohirio ad-dalu hawliadau os cânt eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn. Sylwer y dylid cyflwyno hawliadau bob mis.

Dyddiad	Diben y Daith (os ydych yn hawlio ar gyfer teithwyr, nodwch nifer y teithwyr a'u henwau) MS – Prif Feddygfa BS – Meddygfa Gangen	Milltiredde o'r Cartref i'r Feddygfa (uchafswm o 10 milltir bob ffordd)	Milltiredde Ymweliad Cartref/ Ymweliad Swyddogol Arall	Milltiredde Teithwyr (os yw'n berthnasol)

[illegible]

At ddefnydd swyddfa NWSSP-PCS yn unig:

Gwiriwyd y ffurflen o ran llofnodion yr hawlydd a chynrychiolydd y practis ☐

Cyfanswm y milltired: _____ Cyfradd fesul milltir: _____

Cyfanswm i'w ad-dalu: _____

Proseswyd gan: _____ Dyddiad: _____

Gwiriwyd gan: _____ Dyddiad: _____

Atodiad 3

Cyfraddau Presennol ar gyfer Treuliau Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer Cyrsiau Adran 2/63

Cyfraddau Teithio

- **Teithiau car** - 23 ceiniog y filltir, a 2 geiniog y filltir yn ychwanegol ar gyfer pob teithiwr ychwanegol.
- Gellir cael ad-daliad am **brisiau trê, tacsî, tollbontydd, trenau tanddaearol**, ac ati, os darperir derbynebau.

Costau Cynhaliaeth

- Os bydd meddyg i ffwrdd am **dros 5 awr**, ond **llai na 10 awr** - £5.00.
- Os bydd meddyg i ffwrdd am **dros 10 awr** - £15.00.
- Os bydd meddyg yn aros dros nos mewn **Gwesty** – hyd at uchafswm o £55.00 y noson (mae angen derbynneb), yn ogystal ag uchafswm o £20 fel lwfans prydau bwyd am bob cyfnod 24 awr.
- Os bydd meddyg yn talu cost lawn ystafell â dau wely sengl sy'n cael ei rhannu mewn gwesty, bydd ganddo/ganddi hawl i gael **hanner cost y llety** yn unig, hyd at uchafswm o £55.00.
- Os bydd meddyg yn aros dros nos gyda **ffrindiau neu berthnasau** - £25.00 y noson (nid oes angen derbynneb). Mae'r gyfradd hon yn cynnwys lwfans prydau bwyd.

ATODIAD 4

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Hawlio Treuliau Cynhaliaeth a Theithio ar gyfer Cyrsiau Cymeradwy Adran 2/63 ar gyfer Meddygon Teulu

Manylion am yr Hawlydd

Cyfenw _____

Enw cyntaf _____ Rhif y Cyngor Meddygol Cyffredinol _____

Cyfeiriad y Practis _____

Statws: Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol ☐ Trefnydd y Cwrs ☐
Cynorthwydd ☐ Tiwtor Meddygon Teulu ☐
Hyfforddwr Meddygon Teulu ☐ Cynghorydd ☐

Os ydych chi'n Gofrestrydd Meddygon Teulu, rhowch enw'ch Hyfforddwr: _____

Manylion am y Cwrs

Lleoliad/Enw'r Ganolfan _____

Pwnc _____

Dyddiad dechrau _____

Dyddiad gorffen _____

Nifer y sesiynau a gymeradwywyd _____

Nifer y sesiynau a fynychwyd _____ Sesiwn lawn 2½ awr neu fwy

_____ Hanner sesiynau 1½ - 2½ awr

_____ Trydydd sesiynau 1 – 1½ awr

(Page 11)

Tystysgrif Presenoldeb

I'w llenwi gan y Tiwtor Clinigol, Trefnydd y Cwrs neu unigolyn awdurdodedig arall.

Rydw i'n ardystio bod yr hawlydd wedi mynychu'r cwrs a ddisgrifir ar y ffurflen hon, a gymeradwywyd gan y Cynghorydd Rhanbarthol o dan Adran 2/63.

Enw _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Nodiadau ar Dreuliau

Cludiant Cyhoeddus

Gallwch hawlio am gludiant cyhoeddus, gan gynnwys teithio ar drên 'dosbarth cyntaf'. Bydd unrhyw ad-daliad yn seiliedig ar gost consesiynau sydd ar gael, fel tocynnau wythnosol. Os oes rhaid i chi fod i ffwrdd dros nos, gallwch hawlio am un daith ddychwelyd yn unig.

Cludiant Preifat

Os byddwch yn defnyddio'ch car eich hun, gallwch hawlio cyfradd bresennol y lwfans milltired ar gyfer y llwybr ymarferol byrraf rhwng eich cartref a lleoliad y cwrs. Gallwch hawlio 2 geiniog y filltir am bob teithiwr cymwys sy'n cael ei gludo i'r un cwrs. Os byddwch yn mynd ag unrhyw deithwyr, rhaid i chi roi manylion amdanynt dros y dudalen.

Sylwer y bydd NWSSP yn defnyddio AA Route Planner i ddilysu neu ddiwygio'r milltired yn seiliedig ar godau post o ddechrau'r daith i'r gyrchfan, yn seiliedig ar y llwybr byrraf. Felly, gellir addasu'r milltired sy'n cael ei hawlio o ganlyniad i'r gwiriad hwn.

Costau Cynhaliaeth Dros Nos

Bydd eich treuliau gwirioneddol ar gyfer pob 24 awr rydych yn absennol o gartref yn cael eu had-dalu hyd at uchafswm, yn unol â'r hyn a bennir gan y rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd (neu i swm llai fel y gellir ei hawlio).

Costau Cynhaliaeth yn ystod y dydd

Mae cyfradd is os ydych chi oddi cartref am rhwng 5 a 10 awr, a chyfradd uwch os ydych chi oddi cartref am fwy na 10 awr.

ER MWYN I CHI ALLU CAEL AD-DALIAD AM GOSTAU TEITHIO/CYNHALIAETH DROS NOS, MAE’N HANFODOL EICH BOD YN CYFLWYNO DERBYNEBAU GWESTY/TOCYNNAU TEITHIO, AC ATI, GYDA’R FFURFLEN HAWLIO HON.

DYLID DYCHWELYD FFURFLENNI CYFLAWN, YNGHYD Â DERBYNEBAU PERTHNASOL, I:

Ardal Ymarfer Bwrdd Iechyd	Cyfeiriad Dychwelyd
Bwrdd Iechyd (P) Abertawe Bro Morgannwg Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Bwrdd Iechyd (P) Betsi Cadwaladr Bwrdd Iechyd (P) Caerdydd a’r Fro Bwrdd Iechyd Cwm Taf Bwrdd Iechyd Hywel Dda Bwrdd Iechyd Powys	NWSSP-PCS Yr Adran Rheoli Contractau Tŷ Cwmbrân Ystâd Parc Mamhilad Pont-y-pŵl Torfaen NP4 0XS

Tudalen 11 o 12

(Page 12)

Dyddiad	Manylion llawn am y daith gyda chodau post (rhaid defnyddio’r union godau post dechrau a dychwelyd)	Os oedd gwriad ar y daith, nodwch y rheswm	Amser gadael	Amser dychwelyd	Costau cynhaliaeth dydd/nos	Taith yn ôl a blaen (ar gyfer teithiau car)	Cost milltiroedd (23c y filltir a 2g fesul teithiwr)	Prisiau/ ffioedd parcio

At ddefnydd NWSSP yn unig (symiau wedi’u cadarnhau neu’u haddasu)				

Manylion am Dreuliau

Manylion am Deithwyr:

Enw	Cyfeiriad	Statws

Datganiad yr Hawlydd

- Rydw i'n datgan fy nhreuliau uchod pan fynychais y cwrs a ddisgrifir ar y ffurflen hon.
- Rydw i'n datgan bod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir a chyflawn, hyd y gwn i.
- Rydw i'n cydsynio i ddatgelu gwybodaeth berthnasol ar y ffurflen hon i Wasanaethau Atal Twyll at ddibenion atal twyll, darganfod twyll ac ymchwilio i dwyll.
- Rydw i'n hawlio'r treuliau a restrir ar y ffurflen hon ac yn amgáu'r holl dderbynebaw perthnasol.

Llofnod _____ Dyddiad _____

At Ddefnydd NWSSP-PCS yn unig

Paratowyd gan _____ Dyddiad _____

Awdurdodwyd gan _____ Dyddiad _____

Swm i'w ad-dalu: £ _____